# Rhoi pobl yn gyntaf: Cyngor ar Bopeth

# Manifffesto 2026



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | t3 |
| 1. Cyngor pan mae pobl angen | t4-5 |
| 2. Lleihau tlodi plant erbyn 2030 | t6 |
| 3. Yr hawl i dai digonol a fforddiadwy | t7 |
| 4. Mwy o amddiffyniadau i bobl mewn dyled broblemus | t8 |
| 5. Mynd i'r afael â thlodi tanwydd | t9 |




# Cyflwyniad

Bydd Etholiad y Senedd yn 2026 yn hanesyddol i Gymru, gyda system etholiadol fwy cyfrannol a Senedd fwy ei maint yn mynd law-yn-llaw â **disgwyliadau uwch o ran darparu.**

Mae'r dirywiad deng-mlynedd mewn safonau byw, a waethygwyd gan y pandemig a'r argyfwng costau byw, yn golygu bod degau o filoedd o bobl ledled Cymru yn dal i fethu â fforddio gwresogi eu cartrefi neu i dalu eu biliau ar ddiwedd pob mis. Efallai bod yr argyfwng costau byw wedi diflannu o'r penawdau i raddau helaeth, ond mae'n dal yn realiti bob dydd i bobl ledled Cymru sy'n defnyddio ac sydd angen ein gwasanaethau.

Mae gwaith ein swyddfeydd Cyngor ar Bopeth lleol yn hanfodol ac mae ei angen nawr yn fwy nag erioed. Nid oes neb arall yn gweld cymaint o bobl gyda chymaint o wahanol fathau o broblemau, ac mae hynny'n rhoi mewnwelediad unigryw i ni i'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu. Mae ein cynigion maniffesto wedi'u seilio ar y dystiolaeth sy'n cael ei chasglu gennym oddi wrth y bobl rydym yn eu cynorthwyo. Dyna pam rydym yn hyderus y bydd y cynigion hyn yn gwella bywydau pobl yng Nghymru.

Mae'r miloedd o bobl sy'n troi at Cyngor ar Bopeth yng Nghymru am gymorth bob blwyddyn angen gwybod beth fydd Llywodraeth Cymru ar ei newydd wedd yn ei wneud i'w helpu nhw, eu teuluoedd a'u cymunedau i ffynnu yn hytrach na dim ond goroesi. Mae angen polisïau arnynt sy'n rhoi mwy o arian yn eu pocedi, sy'n lleihau cost y pethau hanfodol mewn modd cynaliadwy, sy'n gwella a gweithredu eu hawliau, ac yn y pen draw'n gwneud eu bywydau'n haws.

**Rydym o'r farn y gallwn greu cenedl decach, iachach, mwy cysylltiedig a mwy gwydn yn ariannol os bydd gwleidyddion yn gwneud y dewisadau cywir a beiddgar.**




# 1. Cyngor pan mae pobl ei angen

Y llynedd, helpodd ein rhwydwaith, sy'n cynnwys 19 o swyddfeydd Cyngor ar Bopeth Lleol, dros **141,000** o bobl ledled Cymru gyda mwy na **miliwn o faterion cynghori**. Helpwyd pobl i ddod o hyd i ffordd allan o ddyled, i arbed arian ar eu biliau, i ddeall eu hawliau cyflogaeth, ac i hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt - a llawer mwy. Ar gyfartaledd, roedd pobl yn ceisio ein cyngor angen help gyda 7 mater gwahanol, sy'n adlewyrchu cymhlethdod sefyllfaoedd pobl, a'r ffordd gynhwysfawr rydym yn darparu cymorth.

## Mae problemau pobl yn aml yn gymhleth

Llynedd, pan ddaeth pobl atom am gyngor ar Gredyd Cynhwysol y llynedd, roedd angen cyngor arnynt ar faterion eraill.




Fodd bynnag, mae'r galw am ein gwasanaethau'n fwy na'r hyn y gallwn ei ddarparu. Dengys dadansoddiad anghenion Llywodraeth Cymru ei hun maint posibl yr angen am wasanaethau cynghori yng Nghymru sydd heb ei ddiwallu, yn enwedig am gyngor ar fudd-daliadau lles, tai a dyled.

Mae gwasanaethau cynghori yn ymyrraeth hanfodol pan fo angen cymorth. Maen nhw hefyd yn gweithredu fel mesur ataliol. Drwy help i atal problemau rhag ddigwydd neu waethygu, mae cyngor wedi'i brofi'n rhywbeth sy'n lleihau pwysau ar wasanaethau cyhoeddus, yn gwella iechyd meddwl a chorfforol pobl, ac yn cynyddu incwm aelwydydd.

Yn 2024-25, cynhyrchodd ein gwasanaethau Cymru-gyfan enillion incwm o **£155 miliwn** a chafodd dyledion o **£22 miliwn** eu dileu.
Golyga buddsoddi mewn gwasanaethau cynghori bod rhywun gan bobl i droi ato bob amser.

## Rydym yn galw ar lywodraeth newydd Cymru i:

- Cefnogi a chynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori dwyieithog annibynnol, o safon uchel ac am ddim, gan ystyried y galw cynyddol gan bobl ledled Cymru.
- Cydnabod a chwrdd â chostau llawn darparu rhaglenni hanfodol Llywodraeth Cymru fel y Gronfa Cynghori Sengl (SAF) a sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gyfer y CCS yn rhan ganolog o ddull strategol y llywodraeth newydd o ddarparu gwasanaethau ataliol.



# 2. Lleihau tlodi plant erbyn 2030

Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ymrwymiad cyson i fynd i'r afael â thlodi ers dechrau datganoli. Fodd bynnag, ar ôl gostyngiad amlwg a chyson o ganol y 90au hyd at ddechrau'r 2000au, mae'r cynnydd wedi bron â dod i stop ers hynny. Er gwaethaf cyllido rhaglenni a chymorth pwysig niferus, sy'n costio biliynau o bunnoedd, mae lefelau tlodi yng Nghymru yn parhau'n gyson. Yn wir, ac yn bryderus, mae adroddiad diweddar yn cadarnhau'r hyn a welwn bob dydd wrth ddarparu ein gwasanaethau cynghori - mae lefelau tlodi ar gynydd, gyda mwy o bobl yn byw mewn tlodi dyfnach nag erioed.

**Heb weithredu penodol, dim ond gwaethygu fydd y sefyllfa dros gyfnod tymor nesaf y Senedd.**

Tra bod llawer o'r cyfrifoldeb am benderfyniadau treth a nawdd cymdeithasol yn nwylo Llywodraeth y DU, mae gan Lywodraeth Cymru liferi economaidd, cymdeithasol a diwylliannol pwysig y mae'n rhaid eu defnyddio i'r eithaf os yw mwy o bobl sy'n byw mewn tlodi i elwa. Mae Cyngor ar Bopeth yn credu bod angen ffocws newydd ar godi safonau byw yng Nghymru, gyda mwy o uchelgais i newid bywydau pobl er gwell.

Er mwyn lleihau tlodi, mae angen ffocws polisi penodol ar safonau byw a diogelwch economaidd aelwydydd incwm isel. Dylai fuddsoddi yn system fudd-daliadau Cymru, fel ei bod yn darparu'r cymorth priodol i bobl pan fydd angen hynny arnynt, fod yn elfen hanfodol o unrhyw strategaeth i fynd i'r afael â thlodi.

Rydym yn annog y rhaglen waith i barhau i symleiddio'r system fudd-daliadau yng Nghymru, ond credwn fod angen gwneud mwy na hynny.

## Rydym yn galw ar lywodraeth newydd Cymru i:

- Cyflwyno Taliad Plant Wythnosol yng Nghymru, yn debyg i Daliad Plant yr Alban. Dylid ei gyflwyno'n raddol, gan ddechrau, er enghraifft, gyda thaliadau llai i aelwydydd â phlant o dan oedran ysgol.
- Diogelu cyllid yn y dyfodol ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol i o leiaf y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer 2025-26, a chynnwys dull mwy ataliol yn nyluniad y Gronfa trwy system bartner integredig sydd ag adnoddau digonol. Tra bod rhyw fath o gronfa argyfwng bob amser yn angenrheidiol, byddai hyn yn helpu i leihau dibyniaeth pobl ar gymorth argyfwng yn y dyfodol.
- Sicrhau fod budd-daliadau, hawliau a throthwyau incwm Cymru yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac/neu eu cynyddu yn unol â chwyddiant.
- Cyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i bob plentyn ysgol uwchradd sy'n byw mewn aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, waeth beth fo'u hincwm.

# 3. Yr hawl i dai digonol a fforddiadwy

Mynediad at dai o ansawdd da, hygyrch, a fforddiadwy yw'r **sylfaen ar gyfer bywyd iach a chyflawn**. Fodd bynnag, mae ein gwasanaethau cynghori'n dangos bod hyn y tu hwnt i gyrraedd miloedd o bobl ar draws Cymru. Mae rhenti cynyddol, niferoedd uchaf erioed mewn llety dros dro, problemau eang gyda lleithder/llwydni, a galw cynyddol am Daliadau Disgresiwn at Gostau Tai yn amlygu'r rhwystrau enfawr.

Yn 2024, fe helpwyd ni dros 27,000 o bobl gyda phroblemau fforddiadwyedd tai, gan gynnwys 4,650 oedd mewn dyled rhent. Mae rhestrau aros hir ar gyfer tai cymdeithasol a chostau morgais uchel wedi golygu bod mwy o bobl yn dibynnu ar y sector breifat sy'n gynyddol anodd ei fforddio. Mae ein hymchwil ymhlith thenantiaid preifat yn amlygu sut mae'r frwydr barhaus i fforddio rhent yn effeithio'n negyddol ar iechyd, cyfleoedd cyflogaeth a pherthnasoedd pobl.

Canfu ymchwil ychwanegol bod 70% o rentwyr preifat wedi profi oerfel, lleithder neu lwydni yn eu cartrefi, gan niweidio eu hiechyd a chostio miliynau o bunnoedd i'r GIG.

## Rydym yn galw ar lywodraeth newydd Cymru i:

- **Cynyddu diogelwch ar gyfer tenantiaid preswyl drwy:**
  - Archwilio opsiynau a fyddai'n cyfyngu ar godiadau rhent yn y sector breifat ac yn helpu i sefydlogi'r farchnad.
  - Gwahardd troi allan di-fai yn llwyr.
- **Ymrwymo i gamau a fydd yn cynyddu cyflenwad tai cymdeithasol** ledled Cymru gan o leiaf 30,000 uned erbyn 2030.
- Cymryd camau pendant drwy **ymgorffori'r hawl i lety digonol mewn deddfwriaeth.** Byddai ymgorffori'r hawl hon yn dal llywodraethau'n atebol ac yn ymgorffori atebion hirdymor i'r argyfwng tai.



# 4. Mwy o amddiffyniadau i bobl mewn dyled broblemus

Gyda thlodi'n dal yn uchel a llawer o aelwydydd yng Nghymru o dan bwysau ariannol, mae'n rhaid i'r Llywodraeth Gymreig nesaf ymrwymo i gefnogi pobl sy'n wynebu dyled broblemus - dyled nad ydynt yn gallu fforddio ei had-dalu o gwbl. Wrth wneud hynny, bydd yn helpu i atal caledi dyfnach, yn lleihau camau gorfodi, ac yn sicrhau bod pobl yn gallu talu costau hanfodol eraill.

Yn 2024, helpodd canghennau lleol Cyngor ar Bopeth Cymru dros 26,500 o bobl gyda phroblemau dyled, ac ôl-ddyledion y dreth gyngor y broblem fwyaf cyffredin. Mae dulliau casglu presennol yn aml yn gwaethygu pethau, gan wthio teuluoedd bregus yn ddyfnach i ddyled.

Rydym wedi bod yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio ddeddfwriaeth ers cryn amser er mwyn dod â safonau'r dreth gyngor yn fwy unol â gwasanaethau rheoledig eraill a sicrhau bod agwedd decach yn cael ei chymryd tuag at aelwydydd mewn dyled.

Mae ymgynghoriad parhaus y llywodraeth ar newid deddfwriaeth er mwyn ymestyn yr amserlen rhwng camau gorfodi a sefydlu safonau arfer gorau yn gam mawr yn y cyfeiriad cywir. Ond nid yw'r amddiffyniadau hyn ar waith eto, ac mae gormod o bobl yn dal i wynebu ad-daliadau na allant eu fforddio neu orfodaeth galed gan swyddogion casglu dyledion.

Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i wneud y diwygiadau hyn yn flaenoriaeth a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n briodol ac yn deg. Y tu hwnt i hynny, mae'n rhaid iddynt ymgorffori gwiriadau fforddiadwyedd ym mhob achos, lleihau dibyniaeth ar feiliaid, a gwarantu cynlluniau ad-dalu teg a hyblyg fydd yn helpu pobl i sefyll ar eu traed unwaith eto.

## Rydym yn galw ar lywodraeth newydd Cymru i:

- Amddiffyn pobl rhag gorfodaeth gosbol drwy ymgorffori arferion casglu dyledion y dreth gyngor teg, cyson a thrugarog.
  - Cefnogi awdurdodau lleol i weithredu newid deddfwriaethol yn gyflym er mwyn cefnogi aelwydydd sydd mewn dyled yn well.
  - Cryfhau rheoliadau newydd gyda goruchwyliaeth ac atebolrwydd priodol, gan sicrhau bod pob cyngor yn rhoi safonau arfer gorau ar waith.



# 5. Mynd i'r afael â thlodi tanwydd

Pedair blynedd ar ôl dechrau'r argyfwng ynni, mae mwy na chwarter cartrefi yng Nghymru yn dal i gael trafferth talu biliau ynni anfforddiadwy ac nid yw prisiau'n debygol o ostwng yn fuan. Yn 2024, dyled ynni oedd yr ail fater dyled mwyaf cyffredin inni helpu pobl gydag ef, wrth i nifer yr ymholiadau godi 144% ers 2019.

Mae'r newidiadau diweddar i'r Taliad Tanwydd Gaeaf a'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes yn cynnig rhywfaint o gefnogaeth i'r rhai sydd ei angen fwyaf, ond nid yw'r gefnogaeth maent yn ei chynnig wedi'i thargedu'n ddigonol, a byddai'n gwneud prisiau ynni'n wirioneddol fforddiadwy.


Mae rhai grwpiau wedi cael eu taro'n galetach gan gostau uchel, gan gynnwys teuluoedd â phlant ac, yn benodol, y rhai sydd â chyflwr hirdymor neu anabledd. Mae hyn yn golygu bod prisiau ynni'n fwy na mater costau byw yn unig, maent yn risg i iechyd y cyhoedd, gan roi pwysau ychwanegol ar ac achosi costau i wasanaeth iechyd eisoes o dan straen mawr.

Mae'r broblem go iawn yn ddyfnach. Mae gan Gymru rai o gartrefi lleiaf effeithlon o ran ynni yn y DU, sy'n golygu bod teuluoedd yn wynebu 'cosb aneffeithlonrwydd' ddifrifol dim ond i gadw'n gynnes. Cartrefi oer a gwlyb sy'n cynnwys llwydni, sy'n niweidio iechyd pobl a chynyddu eu dyled ynni. Ond nid yw'r cyllid ar gyfer Rhaglen Cartrefi Cynnes yn ddigonol.

Mae angen cynllun beiddgar arnom i ôl-osod cartrefi, ehangu cymorth, a gwneud y trosglwyddiad i wresogi carbon isel yn deg a chynhwysol. Rhaid i bobl fod wrth wraidd y newid hwn. Mae pawb yn haeddu cartref cynnes, diogel ac iach.

## Rydym yn galw ar lywodraeth newydd Cymru i:

- **Cyflymu'r gwaith o adnewyddu cartrefi sydd ag inswleiddio gwael er mwyn amddiffyn teuluoedd rhag codiadau syfrdanol mewn prisiau ynni a lleihau tlodi a thanwydd.**
  - Ymrwymo i fuddsoddi adnoddau dilynol o Gynllun Cartrefi Cynnes Llywodraeth y DU i wneud cartrefi Cymru'n gynhesach, yn iachach, ac yn fwy effeithlon o ran ynni - gan roi blaenoriaeth i'r rhai sydd angen cymorth fwyaf.
  - Ehangu cyllid ar gyfer y cynllun Nyth er mwyn sicrhau bod yr opsiwn o drosglwyddo i wresogi carbon isel ar gael i bawb - gan barhau i ddarparu cyngor dibynadwy yn ogystal â gwelliannau wedi'u hariannu'n llawn i berchnogion tai a thenantiaid incwm isel mewn cartrefi aneffeithlon.
- **Diogelu ac ehangu cymorth ariannol brys ar gyfer aelwydydd sydd mewn perygl o gael eu datgysylltu neu sy'n byw oddi ar y grid.**
  - Creu llwybrau clir a syml ar gyfer cael cymorth brys, gan ddileu rhwystrau diangen ar gyfer cymhwysedd neu geisiadau.



Ni yw cyngor ar bopeth Ni yw Cefnogwr y bobl.

## Rydym yn elusen sy'n gweithio dros y gymdeithas gyfan - pwy bynnag ydych chi, beth bynnag yw eich problem.

**Rydym yn ymgyrchu ar y materion sy'n effeithio ar bob un ohonom.**

**Rydym ni yma i chi gyda chyngor ymarferol y gallwch chi ymddiried ynddo, pan fyddwch wir ei angen.**

**Rydym yn helpu i adeiladu cymdeithas decach i bawb.**

**Rydym yn cael ein cefnogi gan wirfoddolwyr sydd wrth wraidd y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.**

**Ni yw Cyngor ar Bopeth. Ni yw cefnogwr y bobl.**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni ar policy.cymru@citizensadvice.org.uk

**citizensadvice.org.uk**

© Citizens Advice

Citizens Advice is an operating name of The National Association of Citizens Advice Bureaux. Registered charity number 279057.